

# Tyfu ar gyfer twf

E-fwletin Garddwriaeth gan Cyswllt Ffermio – rhifyn Gaeaf 2024.



Croeso i'n E-fwletin pwrpasol ar gyfer Tyfwyr a Busnesau Garddwriaeth.

## Beth sy'n digwydd ym maes garddwriaeth?

### Adroddiad arbennig: Wythnos Hinsawdd Cymru

Cynhaliwyd cynhadledd rithwir 5 diwrnod cenedlaethol o ddydd Llun 11 i ddydd Gwener 15 Tachwedd 2024. Daeth gweithwyr proffesiynol o bob sector ynghyd i archwilio'r thema 'addasu i newid yn yr hinsawdd'.

Cynrychiolwyd y diwydiant Garddwriaeth yng Nghymru ar y diwrnod cyntaf, mewn trafodaeth a arweiniwyd gan ein Rheolwr Garddwriaeth, Sarah Gould: '[Sesiwn 3 Datblygu cynllun gwrthsefyll hinsawdd ar gyfer busnesau garddwriaeth Cymru](#)' Ymunodd Iain Cox o [Eco Studio](#) â'r tyfwyr Ric Kenwood o [Clare Austin Hardy Plants](#) a Lyndall Merry o [Lysiau Bryn Celyn](#) â Sarah. Roedd y sesiwn hon yn edrych ar y camau y gall busnesau garddwriaeth eu cymryd i adeiladu'r gallu i wrthsefyll hinsawdd.



Cynrychiolodd ein hyfforddwr arbenigol David Skydmore y sector Iechyd Planhigion ar banel o siaradwyr ar gyfer iechyd anifeiliaid, planhigion a phobl ar [Ddiwrnod 4 Sesiwn 4 - Ymagwedd un iechyd at newid hinsawdd](#). Buont yn trafod eu hatebion addasol ar gyfer yr heriau a wynebwn yn sgil newid yn yr hinsawdd.

Ac yn olaf, Adam Jones o '[Adam yn yr ardd](#)' oedd y prif siaradwr mewn sgwrs fywiog ar [arddwyr Cymru'n gweithredu ar yr hinsawdd](#).

A wnaethoch chi golli'r gynhadledd? Dim problem! Gallwch ddal i fyny [yma](#) a dod o hyd i'w hadnoddau [yma](#)

### Astudiaeth Newydd ar gyfer Gwrthsefyll Hinsawdd

Trafodwyd yr astudiaeth ymchwil ddiweddar a gomisiynwyd gan Garddwriaeth Cyswllt Ffermio ac a ddatblygwyd gan ein hymgyngorwyr Iain Cox a Dr. David Skidmore: [Cynllun gwrthsefyll hinsawdd ar gyfer busnesau garddwriaeth yng Nghymru](#). Mae'r cynllun yn llywio Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru ar gyfer amaethyddiaeth sy'n cael ei datblygu ar yr un pryd gan Lywodraeth Cymru.

### Lansio clwstwr cefnogol newydd ar gyfer gwrthsefyll hinsawdd

Mae gan Iain Cox, o [Eco Studio](#), flynyddoedd o brofiad o helpu sefydliadau i roi cynaliadwyedd ar waith. Mae clwstwr newydd yn cael ei ddatblygu o ganlyniad i'r cynllun gwrthsefyll hinsawdd newydd, i roi mwy o gymorth i dyfwyr i addasu i newid yn yr hinsawdd. Cynhelir y gweithdy cyntaf ddiwedd mis Chwefror. Bydd rhagor o wybodaeth i ddilyn.

Os hoffech chi fynegi diddordeb mewn ymuno â'r clwstwr, e-bostiwch [horticulture@lantra.co.uk](mailto:horticulture@lantra.co.uk)

## Uchafbwynt y tyfwr

### Coeden a dyfir ar fferm Rhwydwaith Coed Nadolig Cyswllt Ffermio yn cyflenwi Rhif 10

Bydd Evergreen Christmas Trees, sy'n cael ei redeg gan y teulu Reynolds yn Nhrefyco, yn cyflenwi'r goeden a fydd yn cymryd lle amlwg y tu allan i gartref y Prif Weinidog eleni. Daw hyn ar ôl i'r tyfwr gael ei enwi'n Bencampwr Tyfwr Coed Nadolig y Flwyddyn 2024 mewn cystadleuaeth flynyddol a gynhelir gan Gymdeithas Tyfwyr Coed Nadolig Prydain (BCTGA).

Mae Evergreen Christmas Trees yn aelod o Rwydwaith Coed Nadolig Cyswllt Ffermio, rhowch wybod i ni os hoffech chi ymuno! E-bostiwch [horticulture@lantra.co.uk](mailto:horticulture@lantra.co.uk)

### Mae Safon ar gyfer tyfwyr ar raddfa fach yn helpu gardd farchnad yn Sir Benfro i ennill mwy o fusnes

Dysgwch fwy am Fferm Underwood yn Sir Benfro, sy'n cael ei rhedeg gan Kate Roberts a'i phartner Calum Stark, sy'n tyfu llysiau organig ar raddfa fasnachol. Fe ddechreuon nhw fel prosiect yn ystod y cyfnod clo yn 2020, i gyflenwi dail salad gwerth uchel i dafarndai a bwytai. Maent bellach yn gwerthu 40 o focsys llysiau lleol bob wythnos ac wedi ehangu ar yr ystod o gynnyrch y maent yn eu cyflenwi i'r fasnach lletygarwch. Bu i Arddwriaeth Cyswllt Ffermio eu helpu i ddatblygu hyd yn oed ymhellach a sicrhau contract cyflenwi gyda phrosiect Llysiau o Gymru i Ysgolion Cymru. Gweler [yma](#).



Ariennir gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Funded by  
**Welsh Government**



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

**GARDDWRIAETH**  
**HORTICULTURE**


## Diweddaru eich gwybodaeth

### Ydych chi'n meddwl am newid yn yr hinsawdd, addasu a chynaliadwyedd

Ydych chi'n chwilio am adnoddau i ddysgu mwy am eich pridd a chynefinoedd, arallgyfeirio cnydau, a sut i reoli risg o newid yn yr hinsawdd a dod yn fwy cynaliadwy?

Dysgwch sut i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd gyda'n **E-ddysgu ar-lein**, mae rhai sesiynau hyfforddiant allweddol yn cynnwys:

- [Garddwriaeth: Compostio ar y Safle ar gyfer Eich Menter Arddwriaethol](#)
- [Garddwriaeth - Cyflwyniad i egwyddorion IPM mewn Garddwriaeth](#)
- **Sylwer:** mae mewngofnodi i'ch cyfrif [BOSS](#) o gymorth cyn i chi ddilyn y dolenni hyn!



Hefyd, siaradwch â'n **harbenigwyr arbenigol** sydd ar gael ar gyfer sesiynau cymorth Busnes Garddwriaeth unigol naill ai ar-lein neu'n bersonol yn eich eiddo. Mae rhai o'n harbenigwyr allweddol i'w gweld isod!

## Ffocws arbenigol garddwriaethol

### Neville Stein

Mae'r ymgynghorydd busnes annibynnol, Neville Stein, sy'n 64 oed, wedi bod yn gweithio yn niwydiant garddwriaeth y DU ers 1977. Ers gadael ei swydd gyda Meithrinfeydd Notcutts yn 1994 mae wedi bod yn gweithredu ei [bractis ymgynghori busnes ei hun](#). Mae dull unigryw Neville wedi bod yn amhrisiadwy, gan helpu llawer o dyfwyr i dyfu eu busnesau yn hyderus a chreu proffidioldeb cynaliadwy. Gall ei ymgynghoriaeth eich helpu i fanteisio ar gyfleoedd yn y farchnad, deall costau a sut i'w lleihau, nodi aneffeithlonrwydd a sut i'w datrys, a dod o hyd i gyfleoedd arallgyfeirio.



Dyma rai o'r adborth gan dyfwyr sydd wedi manteisio ar gymorth busnes Garddwriaeth gyda Neville:

- "Roedd yn frwdfrydig ac yn ein herio mewn ffyrdd hynod ddefnyddiol sydd wedi cynyddu ein heglurder o ran gweledigaeth a chynlluniau. Bu i hyn ein helpu i ganolbwyntio ein meddwl ar yr hyn yr ydym yn ceisio ei wneud a pham."
- "Diolch am gynnig y cymorth rhad ac am ddim yma, mae'n gwneud y maes yn hwn yn gliriach i mi yn araf bach. Er fy mod yn dysgu bod busnes a chyllid yn gymhleth. Mae'r cymorth hwn yn bendant yn mynd i gyflymu fy nghynnydd tuag at fy nodau yn y dyfodol a rhoi'r hyder i mi fy mod yn troedio'r llwybr cywir ac yn deall mwy am gyllid."
- "Roedd Neville yn wybodus iawn a rhoddodd ei gymorth gyda doethineb a dealltwriaeth wych o'n sefyllfa."
- "Craff, ysgogol a chadarnhaol ac yn onest ac yn barod i fy herio ar rai agweddau o'r busnes megis enw ein cynnyrch."

### Adam Payne

Adam Payne o [Awen organics](#) yw ein darparwr hyfforddiant sydd newydd gofrestru. Cawn glywed mwy yn y flwyddyn newydd am raglen hyfforddiant newydd y bydd yn ei datblygu ar ein cyfer! Bydd yr hyfforddiant yn rhoi sylw i Arddwriaeth Adfywiol – Cynhyrchu llysiâu.



I elwa o'n gwasanaeth **cymorth busnes garddwriaethol cyfrinachol a rhad ac am ddim** ac i drefnu apwyntiad gyda Neville neu Adam, cysylltwch â [horticulture@lantra.co.uk](mailto:horticulture@lantra.co.uk).

## Grantiau a Chynlluniau – dyddiad cau ar gyfer cyflwyno yw mis Ionawr 2025!

Peidiwch â cholli'r dyddiad cau ar gyfer Grantiau a Chynlluniau Garddwriaeth gan Lywodraeth Cymru: Gweler ein [Taflen Gyngor Newydd](#) gyntaf fel man cychwyn i ddod o hyd i'r holl ddolenni i wneud cais! Cofiwch y gallwch hefyd drefnu **sesiwn cymorth busnes un i un wedi'i hariannu'n llawn** i'ch helpu, e-bostiwch [Horticulture@lantra.co.uk](mailto:Horticulture@lantra.co.uk). Mae templed cynllun busnes rhad ac am ddim ar gael [yma](#).

## Beth sydd ymlaen?

Blwyddyn newydd, digwyddiadau newydd! Rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2024 darparwyd o leiaf 73 o gyrisiau (gan gynnwys ymweliadau astudio, digwyddiadau hyfforddiant, a gweminarau) a 34 o sesiynau cymorth busnes garddwriaeth i fusnesau newydd.

Cadwch lygad ar ein rhestr digwyddiadau [yma](#) yn y flwyddyn newydd, wrth i ni baratoi ar gyfer rhaglen gyffrous newydd o weithgareddau.

## Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn. Dylid defnyddio cemegau amddiffyn cnydau gan ddilyn argymhellion y label bob tro, a dylid eu darllen cyn chwistrellu. Mae'r risg o ddefnyddio'r plaladdwr yn llwyr yn nwylo'r defnyddiwr, ac nid yw Cyswllt Ffermio yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw golled neu ddifrod a achosir gan ddefnydd o'r fath. Gall y cyfeiriadau at gymeradwyaethau ar y label ac EAMUs ar gyfer defnyddio plaladdwyr newid a gellir tynnu cymeradwyaeth yn ôl ar unrhyw adeg. Cyfrifoldeb y tyfwr yw gwirio cymeradwyaeth cyn defnyddio plaladdwyr neu bryfed llesol. Os oes amheuaeth, dylai tyfwr geisio cyngor gan arbenigwr cymwys. Cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad – mae cyngor dros e-bost/ffôn ar gael hefyd. Nid ydym yn sicrhau, yn cymeradwyo, nac yn cymryd cyfrifoldeb am gywirdeb na dibynadwyedd unrhyw wybodaeth a gynigir gan wefannau trydydd parti sy'n gysylltiedig â'r ddogfen neu unrhyw wefan neu nodwedd sydd wedi'i chysylltu ag unrhyw faner neu hysbyseb arall.